OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1250 (Cy. 322)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Stryd Fawr, y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Tachwedd 2021* |
| *Yn dod i rym* | *14 Tachwedd 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod y Gwasanaeth Coffa ar Sul y Cofio yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Stryd Fawr, y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Tachwedd 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw;

(a) unrhyw gerbyd gwasanaeth cyhoeddus;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

---

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 27), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(c) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(d) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan swyddog awdurdodedig i gefnogi'r Gwasanaeth Coffa ar Sul y Cofio ac am resymau diogelwch y gwasanaeth.

ystyr "y cyfnod cau" ("*closure period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 10:40 o'r gloch ar 14 Tachwedd 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Aran hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Domen, y Bala, Gwynedd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Tachwedd 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru